WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – **Cyngor Gwynedd**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1429A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon i gael ei defnyddio'n fewnol gan Gyngor Gwynedd fel rhan o waith a wneir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei gymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei ddilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a wnaeth y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Alan Hughes ac Euros Lake dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cygnor wedi gweithredu yn unol ag elfennau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen gwaith pellach i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad Manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol ag elfennau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen gwaith pellach i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn 6

Mae'r Cyngor wedi ailfodelu'r gwasanaeth ieuenctid i'w wneud yn fwy cynaliadwy, ond caiff y modd y darperir y gwasanaeth ei lywio'n bennaf gan gyfyngiadau ariannol yn hytrach na dealltwriaeth am y galw am y gwasanaeth yn yr hirdymor 6

Mae'r Cyngor yn cydnabod y manteision ataliol y mae gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy a hygyrch yn eu darparu, ond gallai wneud rhagor i ddeall achosion sylfaenol y problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio'u hatal 7

Er bod rhai enghreifftiau o integreiddio ni all y Cyngor ddangos yn glir ei fod yn ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, na'r nodau llesiant cenedlaethol 8

Ceir tystiolaeth o gydweithio cynyddol ar lefel weithredol ac o ran arfarnu gwerth partneriaethau hirsefydlog ond roedd y modd y dyrannwyd arian o'r gronfa drawsnewid yn adweithiol ac ni chynlluniwyd hynny'n strategol, gan beryglu gwerth o bosibl 9

Fe ymgynghorodd y Cyngor yn eang â defnyddwyr y gwasanaeth wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid, ond roedd gwendidau allweddol o ran sut yr hysbysodd bobl ynghylch y newid i'r gwasanaeth 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliom ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y canlynol:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o gam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant, sef: Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gynorthwyo Pobl Ifanc i ddysgu a datblygu sgiliau at ddibenion personol, emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.

9 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

10 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.. |

11 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol ag elfennau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen gwaith pellach i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn.**

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan 1 – Canfyddiadau'r archwiliad

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol ag elfennau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen gwaith pellach i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn

### Mae'r Cyngor wedi ailfodelu'r gwasanaeth ieuenctid i'w wneud yn fwy cynaliadwy, ond caiff y modd y darperir y gwasanaeth ei lywio'n bennaf gan gyfyngiadau ariannol yn hytrach na dealltwriaeth am yr angen am y gwasanaeth yn yr hirdymor

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

12 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

13 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

14 Canfuom y cryfderau canlynol:

- yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb, sef 'Her Gwynedd', fe benderfynodd y Cyngor fod y model presennol ar gyfer darparu gwasanaethau'n anghynaliadwy.
- mae'r Cyngor wedi sefydlu model mwy hyblyg ar gyfer ei wasanaeth ieuenctid sydd â'r potensial i wella'i gydnerthedd a'i allu i ymateb i bwysau o ran y gyllideb yn y dyfodol.
- mae'r ffaith bod y gwasanaeth yn fwy cydnerth yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cyngor y bydd gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc Gwynedd yn dal i fod yn ei le

[2] Gweler Atodiad 1

hyd y gellir rhagweld, gan felly gyfrannu at ei amcan llesiant i sicrhau bod dinasyddion Gwynedd yn gallu “mwynhau bywydau hapus, iach a diogel”.

15 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy’n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy’n gallu mynd yn fwy neu’n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â’i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.
- roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo’r model newydd yn canolbwyntio’n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu’r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

## Mae’r Cyngor yn cydnabod y manteision ataliol y mae gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy a hygyrch yn eu darparu, ond gallai wneud rhagor i ddeall achosion sylfaenol y problemau y mae’r gwasanaeth yn ceisio’u hatal

### Yr hyn y chwilion ni amdano

16 Fe chwilion ni am dystiolaeth o’r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam helpu i’w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw’r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

17 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

18 Canfuom y cryfderau canlynol:

- fe ganolbwyntiodd y broses o ailfodelu’r gwasanaeth yn bennaf ar atal effaith anffafriol cau clybiau ieuenctid ar gymunedau gwledig y sir, gyda’r Cyngor yn dewis ailfodelu’r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chwtogi ar y model clybiau ieuenctid blaenorol.
- mae’r gwasanaeth ieuenctid wedi’i alinio’n fwy â gwasanaethau plant y Cyngor a’r agenda atal ac ymyrryd yn gynnar yn y gwasanaethau

[3] Gweler Atodiad 1

cymdeithasol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – e.e. mae rhai gweithwyr ieuenctid bellach yn rhan o'r Tîm o Amgylch y Teulu yn y Gwasanaeth Plant, sy'n cefnogi'r rhai sydd o fewn trwch blewyn i ddod yn rhan o'r system gofal ffurfiol.

- mae'r gwasanaeth ieuenctid yn symud rhai adnoddau i weithgareddau mwy ataliol. Mae'n archwilio cyfleoedd i fentro y tu hwnt i gylch gorchwyl traddodiadol gwasanaeth ieuenctid trwy ddarparu ymyriadau ar gyfer rhieni sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon ac yn 'byw gyda phlant yn eu harddegau' i atal galw posibl ar wasanaethau plant y Cyngor.

19 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu
- bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.

## Er bod rhai enghreifftiau o integreiddio ni all y Cyngor ddangos yn glir ei fod yn ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, na'r nodau llesiant cenedlaethol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

20 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a blaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

21 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

22 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

[4] Gweler Atodiad 1

- ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.
- mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.

## Ceir tystiolaeth o gydweithio cynyddol ar lefel weithredol ac o ran arfarnu gwerth partneriaethau hirsefydlog ond roedd y modd y dyrannwyd arian o'r gronfa drawsnewid yn adweithiol ac ni chynlluniwyd hynny'n strategol, gan beryglu gwerth o bosibl

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- fel rhan o'r gwaith i ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid, fe wnaeth y Cyngor adolygu a therfynu'r cyllid blynyddol a ddarperir ar gyfer rhai partneriaid hirdymor. Fe wnaeth hyn alluogi'r Cyngor i ailgyfeirio'r cyllid hwn gan gael mwy o werth ac i gydweithio gydag amrywiaeth ehangach o bartneriaid.

[5] Gweler Atodiad 1

- gan nad yw wedi'i angori wrth adeiladau penodol mwyach, mae ailfodelu'r gwasanaeth wedi arwain at fwy o gyfleoedd i gydweithio ag amrywiaeth ehangach o bartneriaid ar lefel weithredol gyda mwy o annibyniaeth yn cael ei rhoi i swyddogion i sefydlu partneriaethau anffurfiol i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn fwy lleol.

26 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
- dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
- roedd dyrannu £50,000 o arian gan y Cyngor o'r gronfa drawsnewid i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned sy'n dymuno cadw clwb ieuenctid nes eu bod wedi sefydlu eu trefniadau cyllido eu hunain yn adweithiol a heb ei gynllunio'n strategol.
- pe bai'r cyllid i bartneriaid wedi cael ei ddarparu mewn modd rhagweithiol gallai hynny fod wedi dwyn manteision cynharach o ran gwerth am arian ond gallai hefyd fod wedi rhoi rhagor o amser i'r Cyngor weithio gyda'r rhai sy'n cael cyllid i ddylanwadu o bosibl ar eu darpariaeth a'i halinio o bosibl ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ieuenctid.

## Fe ymgynghorodd y Cyngor yn eang â defnyddwyr y gwasanaeth wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid, ond roedd gwendidau allweddol o ran sut yr hysbysodd bobl ynghylch y newid i'r gwasanaeth

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cynnwys’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- yr ysgogydd ar gyfer y gwaith ailfodelu oedd pwysau cyllidebol, yr ymgynghorwyd yn eang yn eu cylch gyda dinasyddion fel rhan o’r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb, “Her Gwynedd”.
- mae’r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i gynnwys defnyddwyr presennol gwasanaethau yn y broses o ail-drefnu’r gwasanaeth ieuenctid ac fe ymgynghorodd yn llwyddiannus â nifer fawr o’r unigolion hyn.
- dewisodd y Cyngor yr opsiwn ailfodelu a oedd yn cael ei ffafrio gan bobl ifanc fel a gyflëwyd yn yr ymarfer ymgynghori.
- mewn ymateb i ymgynghori helaeth â defnyddwyr gwasanaethau, mae’r gwasanaeth a ailfodelwyd o’r newydd yn adlewyrchu dull mwy hirdymor a chyfannol, e.e. dywedodd pobl ifanc fod arnynt eisiau mynediad gwell at weithwyr ieuenctid, trwy ymgysylltu ar-lein a thrwy gydol y flwyddyn, yn hytrach nag mewn clybiau ieuenctid traddodiadol am slot wythnosol byr yn ystod y tymor ysgol.
- mae’r model newydd hefyd yn golygu bod y Cyngor yn teilwra’i ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16+ ac felly’n adlewyrchu rhyngweithio mwy hirdymor ac wedi’i dargedu’n fwy gyda phobl ifanc, ac yn mynd i’r afael â phryderon y Cyngor bod y model blaenorol yn apelio at ystod oedran fwy cul yn bennaf.

30 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae diffyg neges glir sy’n datgan y bwriad i gau’r holl glybiau ieuenctid presennol yn y fideo ‘Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar gyfer Yfory’ yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Mawrth 2019. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol dan themâu penodol.

| Hirdymor - Cyfleoedd | Gweithredu gan y Cyngor |
|---|---|
| Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol. | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pwysau cyllidebol wedi bod yn rhan o'i broses ystyried wrth ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br>Bydd y Cyngor yn adolygu ei drefniadau ar gyfer ystyried gofynion y Ddeddf, ar y cyd â chyfundrefnau arbedion a thoriadau posibl, wrth werthuso a dod i benderfyniadau ynghylch ailfodelu / ailstrwythuro gwasanaethau. |
| Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol | Roedd yr ailfodelu'n cynnwys dwyn ynghyd broffil ystadegol o bobl ifanc 11-25 Gwynedd. Fodd bynnag, wrth lunio'r proffil roedd bylchau yn y data a oedd ar gael (o ran meysydd, 'cwmpasu'r' grŵp oedran llawn, ac o ran daearyddiaeth). Pan fydd setiau data / ffynonellau data ar gael byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol wrth fodelu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.<br>Byddwn yn tynnu sylw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at y bwlch yn y data ar gyfer y grŵp oedran hwn, y gwnaethom eu hystyried wrth adolygu'r asesiadau o anghenion er gwaethaf ei fodolaeth. |
| **Atal - Cyfleoedd** | **Gweithredu gan y Cyngor** |
| Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu | Wrth ddeall achosion sylfaenol y problemau hynny, byddwn yn ystyried pa ran y gall y Gwasanaeth Ieuenctid ei chwarae i helpu i fynd i'r afael â hwy. |
| Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. | Lle mae data ar gael, gallwn wella defnydd effeithiol o ddata. Byddwn yn gwneud hyn gan barhau i raeadru Ffordd Gwynedd drwy'r gorfforaeth – |

| | |
|---|---|
| Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal. | mae'r model yn cynnwys yr angen i reolwyr ddefnyddio data'n effeithiol wrth adnabod anghenion, ac adnabod ffyrdd o atal yr anghenion rhag codi. Byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant ar Ffordd Gwynedd yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl reolwyr yn y Cyngor a fydd yn cyfrannu at wella ein defnydd o ddata. Mae Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Ieuenctid bellach wedi cwblhau Hyfforddiant ar Ffordd Gwynedd. |
| **Integreiddio - Cyfleoedd** | **Gweithredu gan y Cyngor** |
| Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol. | Mae'r cyfle ar gyfer gwella a amlygir yn adlewyrchu'r cyd-destun strategol / llywodraethu a oedd yn bodoli ar y pryd.<br>Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei wasanaethau'n cyfrannu at ei amcanion llesiant trwy ei drefniadau herio perfformiad, adroddiadau blynyddol ac adolygiad blynyddol o Gynllun y Cyngor. Mae'r nodau ac amcanion llesiant yng Nghynllun y Cyngor yn gyson â Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>Ers cyflawni'r cam rydym wedi adolygu cyfraniad a diben y Gwasanaeth Ieuenctid newydd lle mae amcanion llesiant Cynllun y Cyngor yn y cwestiwn fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r cynllun hwnnw.<br>Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi adolygu trefniadau llywodraethu isranbarthol i sefydlu trefniadau i wella integreiddio. Byddwn yn sefydlu Grŵp Plant Integredig Gwynedd ac Ynys Môn i wella integreiddio, gwaith gyda phartneriaid, a chyflawni amcanion llesiant y cytunwyd arnynt ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. |
| Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio. | Byddwn yn comisiynu adolygiad mewnol yn 2019-2020 ar draws ein gwasanaethau, i wella ein dealltwriaeth am ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth roi Ffordd Gwynedd ar waith. |

| Cydweithio – Cyfleoedd | Gweithredu gan y Cyngor |
|---|---|
| Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio. | Mae cynllunio strategol ar draws y maes Cymorth Ieuenctid wedi cael ei adnabod fel risg yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn dilyn datgomisiynu Is-grŵp Cymorth Ieuenctid y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Rydym wedi adolygu ein trefniadau partneriaeth / llywodraethu trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn sefydlu Grŵp Plant Integredig Gwynedd ac Ynys Môn i wella integreiddio, gwaith gyda phartneriaid, a chyflawni amcanion llesiant y cytunwyd arnynt ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. |
| Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio. | Byddwn yn ceisio cynnwys yr holl randdeiliaid wrth drefnu gwasanaethau yn y dyfodol. |
| **Cynnwys – Cyfleoedd** | **Gweithredu gan y Cyngor** |
| Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuenctid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion. | Byddwn yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cynnwys mewn negeseuon cyfathrebu yn y dyfodol. |

32 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau i ganfod i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach nag yn 'benderfynyddion' sy'n nodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 1: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru